

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd)

Hafan y Coed

Ward Gwern a Ward
Cedrwydd

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr Arolygiad:

27 Chwefror – 2 Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
5.	Y Camau nesaf	18
6.	Methodoleg	19
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC ymweliad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl Hafan y Coed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 27 Chwefror i 2 Mawrth 2017. Ymwelwyd â safleoedd a wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Hafan y Coed, Ward Gwern, Uned Gofal Dwys Seiciatrig
- Hafan y Coed, Ward Cedrwydd, Ward Derbyn Argyfyngau Seiciatrig

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un rheolwr arolygu AGIC (a arweiniodd yr arolygiad), un adolygydd cymheiriaid clinigol (a wnaeth ymgymryd â'r adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl), a dau aelod o staff AGIC a oedd yn gweithredu fel adolygwyr lleyg.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion a oedd wedi'u cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o arolygu gwasanaethau'r GIG yn Adran 6.

2. Cyd-destun

Ar hyn o bryd, mae Hafan y Coed yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ardal Llandochau, Cyngor Bro Morgannwg.

Mae Hafan y Coed wedi'i leoli yn Ysbyty Prifysgol Llandochau, ac yn dod o dan Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Agorwyd Hafan y Coed ym mis Ebrill 2017, ac mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Ward Cedrwydd – Asesu Argyfwng
- Ward Ffawydd – Ward Driniaeth Ardal
- Ward Derw – Ward Driniaeth Ardal
- Ward Helyg – Ward Driniaeth Ardal
- Ward Collen – Adsefydlu ac Adfer
- Ward Gwern – Uned Gofal Dwys Seiciatrig
- Ward Onnen – Niwroseiciatreg
- Uned Ddydd Onnen – Niwroseiciatreg
- Ward Llwyfen – Gwasanaethau Diogelwch Isel
- Ward Masarn – Gwasanaethau Diogelwch Isel
- Ward Pinwydd – Gwasanaethau Caethiwed
- Gwasanaethau Dydd Pinwydd – Gwasanaethau Caethiwed
- Timau Triniaeth Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref (Gogledd a De)
- Adran Ffisiotherapi
- Adran Therapi Galwedigaethol
- Therapiau Iaith a Lleferydd
- Uned Therapi Electrogynhyrfol
- Dietegydd
- Adran Fferylliaeth
- Adran Seicoleg

3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Ward Gwern a Ward Cedrwydd yn Hafan y Coed yn darparu gofal effeithiol ar gyfer y cleifion, fodd bynnag mae gennym bryderon mewn perthynas ag arferion rheoli meddyginiaeth a dyluniad amgylcheddol a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn darparu gofal ar gyfer cleifion ar y ddwy ward mewn modd parchus.
- Ar y cyfan, roedd y wardiau'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer y cleifion i dderbyn gofal.
- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion yn ysgrifenedig neu trwy siarad â staff.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y cleifion gynllun gofal a thriniaeth cyfredol.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaeth.
- Y mesurau preifatrwydd i gadw gwybodaeth bersonol yn breifat mewn swyddfeydd nyrsio.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd. Gwnaeth y staff bob ymdrech i gynnal urddas cleifion, ac roedd yr ystafelloedd gwely *en suite* yn darparu preifatrwydd ychwanegol ar gyfer cleifion.

Fodd bynnag, rydym yn poeni am y diffyg mesurau i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth bersonol, y gellir ei gweld trwy ffenestri'r swyddfa nyrsio.

Roedd gwybodaeth gyfredol ddigonol ar gael i gleifion ar y ddwy ward. Gwnaeth y staff sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol gan ddefnyddio geiriau ac iaith addas i'r claf unigol.

Gofal ag urddas

Safon 4.1 – Gofal ag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol.

Canfuom fod cleifion ar Ward Gwern a Ward Cedrwydd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff sy'n gweithio yno, ac roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nogfennau gofal y cleifion.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau *en suite*, yn ogystal â mynediad at fannau cymunol a mannau ymwelwyr ar adegau o'u dewis eu hunain. Roedd y ddwy ward yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion gwrywaidd a benywaidd, a gwelsom y staff drwy gydol yr arolygiad yn cynnal urddas a phreifatrwydd cleifion.

Fodd bynnag, roedd nam ar gawod *en suite* yn ystafell wely un o'r cleifion ar Ward Cedrwydd, lle'r oedd dŵr gwastraff yn codi nawr ac yn y man trwy'r draen. Gwnaethom ddwyn hyn i sylw'r nyrs a oedd yn gyfrifol am y sifft, a aeth ati i gwblhau cais cynnal a chadw a'i gyflwyno i adran ystadau'r bwrdd iechyd.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Dyma oedd yr achos hefyd pan oedd aelodau o staff yn siarad â

pherthnasau neu ymwelwyr cleifion, boed hynny'n bersonol neu ar y ffôn. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu.

Derbyniwyd cydsyniad gan gleifion cyn edrych ar eu hystafelloedd gwely. Gwelsom fod y cleifion yn cael cadw eitemau personol yn eu hystafelloedd a bod ganddynt ddigon o le i gadw eu heiddo. Roedd gan gleifion allweddi ar fandiau llewys ar gyfer eu hystafelloedd gwely fel y gallent gael mynediad rhydd atynt; roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen gwneud hynny.

Roedd y staff yn ymgymryd ag arsylwadau ar yr ystafelloedd gwely gan ddefnyddio'r sgrin a'r uwch-seinydd arsylwi electronig (sy'n cael eu hactifadu gan fotwm ac wedi'u rhagosod yn fud) oedd y tu allan i bob un o'r ystafelloedd gwely. Roedd y sgriniau arsylwi wedi'u cau a'u cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, a dim ond y staff oedd yn gallu cael mynediad atynt trwy ddefnyddio'u hallwedd ffob.

Roedd gan y swyddfa ar bob ward fwrdd cipolwg ar statws cleifion¹ a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd cyfleusterau i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio; roedd hi'n bosibl gweld y byrddau gwybodaeth trwy ffenestri'r swyddfa neu pan oedd drws y swyddfa ar agor. Gwnaeth hyn effeithio ar gyfrinachedd gwybodaeth cleifion a'u preifatrwydd. Gwelsom fod sgriniau cyfrifiaduron yn y swyddfeydd nyrsio yn wynebu ffenestri'r swyddfa hefyd, ac eto roedd hi'n bosibl y gellid gweld gwybodaeth gyfrinachol. Gallai hyn effeithio ar gyfrinachedd gwybodaeth cleifion.

Yr hyn y mae angen i wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y nam ar gawod en suite y claf yn cael ei gywiro.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y byrddau cipolwg ar statws cleifion ar bob ward ond yn weladwy i staff yn y swyddfa nyrsio, a'u bod yn cael eu cadw o'r golwg pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

¹Bwrdd sy'n galluogi'r staff i gyfeirio'n gyflym at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gwybodaeth ar sgriniau cyfrifiaduron ar bob ward yn weladwy o'r tu allan i'r swyddfa nyrsio.

Safon 4.2 – Gwybodaeth i gleifion

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal sy'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion, i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Safon 3.2 – Cyfathrebu'n effeithiol

Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.

Roedd manau trwy'r ddwy ward lle'r oedd gwybodaeth gyfredol am gleifion yn cael ei harddangos yn glir. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth statudol, megis y gwasanaeth eiriolaeth, ynghyd â gweithgareddau cleifion a oedd yn cael eu cynnal a gwybodaeth am wasanaethau cymunedol sydd ar gael i gleifion, megis grwpiau cymorth ac eiriolaeth.

Trwy bob un o'n harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng staff a chleifion, roedd hi'n amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn treulio amser i drafod gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn aneglur neu wedi camddeall o hyd, byddai staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Mewn cyfarfodydd unigol roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrff allanol, megis cyfreithwyr neu eiriolaeth. Roedd teuluoedd a gofalywr cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol hefyd, â chydysniad y claf.

Roedd pob un o'r wardiau wedi neilltuo man preifat i gleifion gael gwneud galwadau ffôn, fodd bynnag nid oedd y ffôn talu ar Ward Gwern yn gweithio. Roedd staff y ward wedi gwneud trefniadau dros dro i gleifion gael mynediad at ffôn y ward.

Yr hyn y mae angen i wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffôn talu ar Ward Gwern yn cael ei atgyweirio.

Gofal amserol

Safon 5.1 – Mynediad amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn modd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y modd cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir.

Roedd Ward Cedrwydd, y ward derbyn argyfyngau, yn rhan o dîm argyfwng y bwrdd iechyd. Roedd tystiolaeth o waith di-dor rhwng y gwasanaeth cleifion mewnol a thimau cymunedol. Roedd y ward yn darparu gofal cleifion mewnol ar gyfer yr holl gleifion a dderbyniwyd yn Hafan y Coed, oni chawsant eu derbyn yn uniongyrchol ar Ward Gwern (Uned Gofal Dwys Seiciatrig) oherwydd lefel uchel o ymddygiad peryglus. Byddai cleifion yn aros ar Ward Cedrwydd tan iddynt allu dychwelyd i'r gymuned. Pe bai angen arhosiad hwy arnynt, byddent yn cael eu trosglwyddo i un o wardiau triniaeth y bwrdd iechyd ar ôl 10 – 14 diwrnod.

Roedd Ward Gwern, yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, yn darparu cymorth dwys ar gyfer cleifion y dyfarnwyd bod eu hymddygiad yn rhy heriol i dderbyn gofal nyrsio ar wardiau eraill yn Hafan y Coed. Ers derbyn y rôl ym mis Ionawr 2017, mae rheolwr Ward Gwern wedi datblygu prosesau â wardiau eraill i ymgymryd ag asesiadau o gleifion ar gyfer darpariaeth ar yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Nodwyd bod y newidiadau wedi sicrhau trosglwyddiad esmwythach ar gyfer cleifion pan oedd angen neu, pe bai'n briodol, cymorth gwell i'r wardiau eraill reoli'r ymddygiadau ar y wardiau eraill.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Nid oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio â Rhan 2 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 nac yn cydymffurfio o ran cwblhau neu adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gyfer cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu arferion i sicrhau bod gan gleifion yn ei wasanaethau iechyd meddwl oedolion gynllun gofal a thriniaeth cyfredol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty wedi cael ei adeiladu â'r nod o ddarparu gofal diogel ar gyfer cleifion, fodd bynnag roedd angen sylw ar nifer o fannau i leihau'r perygl i ddiogelwch cleifion.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar y ddwy ward; fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn dangos bod meddyginiaeth yn cael ei storio a'i defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pedwar claf, dau ar bob ward. Dangosodd y dogfennau fod y wardiau'n cydymffurfio â'r trefniadau cadw dan y Ddeddf. Gwnaethom nodi hefyd bod pob achos o absenoldeb trwy ganiatâd wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Cynllunio a darparu gofal – Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Gwnaethom adolygu pedair set o gofnodion cleifion electronig i fonitro cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd â dogfennau Cynllunio Gofal a Thriniaeth dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Gwnaethom adolygu'r cynlluniau ymyrryd a luniwyd wrth i gleifion gael eu derbyn. Gwelwyd bod y rhain yn gyffredinol ac nad oeddent yn canolbwyntio ar gleifion unigol. Roedd hi'n amlwg o'r dogfennau ac wrth siarad â staff y ward ac uwch-reolwyr nad yw dogfennau Cynllunio Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau neu eu diwygio wedi i glaf gael ei dderbyn yn Hafan y Coed.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r arfer hwn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rhan 2 y Mesur, fel bod gan yr holl bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y bwrdd iechyd (ac awdurdodau lleol cysylltiedig):

- yr hawl i gael Cydlynnydd Gofal sydd wedi'i benodi i weithio gyda nhw i gydlynu eu gofal a thriniaeth, ac

- yr hawl i gael Cynllun Gofal a Thriniaeth unigol a chynhwysfawr i gynorthwyo eu hadferiad.

Mae Cod Ymarfer y Mesur yn amlinellu beth y dylai'r hawliau hyn eu golygu'n ymarferol:

- asesiad cyfannol i gasglu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i gynnal cynlluniau gofal a thriniaeth a gwaith yn y dyfodol
- clustnodi Cydlynedd Gofal a fydd yn weithiwr proffesiynol iechyd meddwl sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol (megis gweithiwr cymdeithasol, nyrs iechyd meddwl, therapydd galwedigaethol, seicolegydd neu feddyg) ac a fydd yn gyfrifol am weithio gydag unigolyn i gytuno ar Gynllun Gofal a Thriniaeth ysgrifenedig
- Cynllun Gofal a Thriniaeth a fydd yn ystyried o leiaf wyth elfen ar fywyd unigolyn:
 - cyllid ac arian
 - llety
 - gofal personol a lles corfforol
 - addysg a hyfforddiant
 - gwaith a galwedigaeth
 - magu plant neu berthnasau gofalgar
 - cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol
 - meddygol a mathau eraill o driniaeth gan gynnwys ymyriadau seicolegol

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflawni gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i sicrhau bod gan gleifion Gynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol.

Gofal diogel

Safon 2.1 – Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bo modd, eu lleihau a'u hatal.

Mae Hafan y Coed yn ysbyty iechyd meddwl a adeiladwyd at y diben, ac a agorodd ym mis Ebrill 2017. Roedd hi'n amlwg, ar y cyfan, bod cryn ymdrech wedi'i wneud wrth adeiladu i greu amgylchedd diogel, modern i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol.

Trwy'r ysbyty cyfan, mae'r amgylchedd wedi'i greu i leihau'r perygl o niwed, naill ai ar ddamwain neu drwy hunan-niweidio. Fodd bynnag, yn ystod digwyddiad ar Ward Gwern, llwyddodd claf i gael mynediad at soced golau ar y nenfwd a thynnu'r bylbg golau gwydr, a roddodd wrthrych i'r claf beri niwed iddo ef ei hun neu i bobl eraill. Mae'r bwrdd iechyd wedi sicrhau na all y digwyddiad hwn gael ei ailadrodd ar Ward Gwern. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na all y digwyddiad hwn gael ei ailadrodd ar wardiau eraill.

Roedd gan y ddwy ward erddi diogel wedi'u hamgáu gan ffensys gwrth-ddringo, fodd bynnag fe'n hysbyswyd bod eitemau cyfyngedig wedi cael eu trosglwyddo i Ward Gwern trwy'r ffensys gwrth-ddringo. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu diogelwch y gerddi i leihau'r perygl o eitemau cyfyngedig yn cael eu trosglwyddo i'r wardiau.

Roedd y staff i gyd yn cario larymau personol, ac roedd hi'n amlwg drwy gydol yr arolygiad bod y rhain yn addas ar gyfer hysbysu staff eraill bod angen cymorth arnynt. Roedd larymau ar y waliau mewn mannau ac ystafelloedd cymunol rhag ofn y byddai angen cymorth ar rywun.

Roedd gan Ward Cedrwydd a Ward Gwern ystafell symbyliad isel ac ardal gofal estynedig, lle gallai'r staff reoli ymddygiadau dirywiol cleifion. Roedd yr ystafell symbyliad isel wedi'i dodrefnu â chadeiriau meddal a bagiau ffa. Roedd yr ardaloedd gofal estynedig wedi'u dodrefnu â sofffa a oedd yn addas ar gyfer cyflawni ataliaeth eisteddog, a lloriau wedi'u meddalu ar gyfer unrhyw ataliaeth ar y llawr (yn wynebu i fyny).

Roedd trolïau cyfarpar brys wedi'u storio'n ddiogel ar bob un o'r wardiau. Fodd bynnag, nid oedd y staff ar y ddwy ward bob amser yn cofnodi bod gwiriadau o'r cyfarpar wedi cael eu cynnal. Roedd bylchau yn y rhestrau gwirio'r cyfarpar brys ar y ddwy ward; o'r herwydd nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y staff yn gwirio'n rheolaidd bod y cyfarpar brys yn bresennol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Yr hyn y mae angen i wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na all cleifion gael mynediad at ffitiadau golau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd leihau'r perygl o eitemau cyfyngedig yn cael eu trosglwyddo i'r wardiau trwy'r gerddi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn dogfennu gwiriadau o'r cyfarpar brys, yn ôl y gofyn.

Safon 2.4 – Atal a Rheoli Heintiau, a Dadheintio

Mae angen i gamau atal a rheoli heintiau effeithiol fod yn fater i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion bob dydd ym maes gofal iechyd, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn i bobl gael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer Hafan y Coed. Roedd pob rhan o'r ysbyty'n edrych yn lân ac yn hylan trwy'r arolygiad cyfan. Roedd yr ystafell ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cymunol yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod, ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob ward/cegin a man ymolchi.

Roedd gan y ward lenni preifatrwydd tafladwy mewn ystafelloedd clinig; fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cofnodi'r dyddiad y newidiwyd y llenni ddiwethaf. O'r herwydd, ni allwn fod yn sicr bod y wardiau'n gweithredu yn unol â pholisi rheoli heintiau'r bwrdd iechyd, mewn perthynas â llenni tafladwy.

Nid oedd gan yr un o'r wardiau ddsbarthwyr gel glanhau dwylo wrth fynedfa (neu allanfa'r) wardiau. Dywedwyd wrthym fod hyn er mwyn atal achosion o hunan-niwed bwriadol trwy lyncu'r hylif. Fodd bynnag, rydym yn teimlo y gellid rheoli dosbarthwyr gel glanhau dwylo'n ddiogel wrth godi dosbarthwyr yn y siambr gaead rhwng coridorau'r ysbyty a'r ward. Byddai hyn yn galluogi cleifion, staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r gel glanhau dwylo cyn mynd i mewn a gadael y wardiau.

Yr hyn y mae angen i wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn dilyn polisi rheoli heintiau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â llenni tafladwy.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau glanhau dwylo priodol wrth fynedfa ac allanfa'r wardiau yn Hafan y Coed.

Safon 2.5 – Maeth a Hydradu

Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethol, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf.

Darparwyd brecwast, cinio canol dydd, cinio nos a swper i gleifion yn Hafan y Coed o brif gegin yr ysbyty. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty. Roedd gan y cleifion fynediad at luniaeth drwy gydol y dydd.

Nid oedd gan y cleifion na'r staff unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth bwyd ar yr un o'r wardiau y gwnaethom eu harolygu.

Safon 2.6 – Rheoli meddyginiaethau

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.

Ar y cyfan, canfuom fod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar y ddwy ward. Roedd y trolïau meddyginiaeth wedi'u diogelu'n briodol yn yr ystafelloedd clinig. Roedd yr holl gypyrddau meddyginiaeth wedi eu cloi'n briodol er mwyn storio meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd pob cwpwrdd Cyffuriau a Reolir yn ddiogel, ac ers agor Hafan y Coed roedd pob cofnod yn y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir wedi cael ei lofnodi gan ddau aelod o staff fel sy'n ofynnol pan mae cyffuriau a reolir yn cael eu tynnu o'r cwpwrdd cyffuriau a reolir.

Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd y staff yn monitro tymheredd oergell y clinig fel sy'n ofynnol i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei chadw ar y tymheredd cywir fel y nodir gan y gwneuthurwyr. Roedd bylchau rheolaidd yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu ar y ddwy ward.

Ni chofnodwyd dyddiad agor y botel ar gyfer pob meddyginiaeth hylifol. O'r herwydd, nid oedd y staff yn gallu bod yn sicr bod y feddyginiaeth yn dal i fod yn addas i'w defnyddio.

Gwnaethom adolygu Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth ar y ddwy ward, ac nid oedd llofnodion rhagnodwyr bob amser yn bresennol yn y man gofynnol ar y siartiau Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth. Roedd bylchau hefyd o ran cofnodi gweinyddu meddyginiaeth yn y siartiau, felly nid oedd yn amlwg a oedd meddyginiaeth wedi'i gweinyddu neu'r rheswm dros beidio â gwneud.

Yr hyn y mae angen i wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd oergell y clinig i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cadw ar y tymheredd gofynnol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiad yr agorwyd pob meddyginiaeth hylifol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth yn cynnwys llofnod y rhagnodwr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi pan weinyddir meddyginiaeth neu'r rhesymau pam na weinyddwyd meddyginiaeth.

Safon 2.7 – Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.

Gwelsom fod gan staff fynediad at, a digon o wybodaeth ynghylch, polisi cyfredol y bwrdd iechyd ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer yr adegau hynny pan oedd plant yn ymweld â chleifion yn Hafan y Coed.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 – Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu systemau ar gyfer adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn rheolaidd, neu ar yr adeg pan yr oedd angen newid. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff fynediad at ganllawiau cyfredol i'w helpu i ofalu am eu cleifion.

Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi trwy system cofnodi digwyddiadau gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Gwnaeth hyn ddarparu llywodraethiant o ran monitro ac adolygu digwyddiadau ar y ddwy ward.

Safon 3.5 – Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol.

Ar y ddwy ward, roedd cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad atynt a'u darllen. Roedd cofnodion dyddiol yng nghofnodion cleifion unigol yn rheolaidd trwy gydol y dydd ac yn fanwl fel ei bod yn hawdd deall gweithgarwch a chyflwr y claf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ddwy ward, gyda thîm o staff ymroddedig a oedd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn ôl pob golwg.

Roedd tîm amlddisgyblaethol cryf yn gweithio gyda'r staff, a gwnaethant sylwadau yn nodi eu bod yn teimlo bod aelodau eraill o staff yn gwrando ar eu barn ac yn ei pharchu.

Roedd rheolwyr y ward yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu siarad â'u rheolwyr am eu gwaith.

Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd yn gadarnhaol bod staff y ward ac uwch-reolwyr yn barod i wrando ar ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod rheolwyr a dirprwy reolwyr y wardiau yn darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth dda. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch y tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd y staff fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn modd cydweithredol a gofynnir am safbwyntiau ac fe'u gwerthfawrogir.

Wrth siarad ag uwch-reolwyr, canfuwyd bod gweledigaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol gyda gwasanaethau cleifion mewnol a chymunedol. Mae cyfarfodydd ansawdd a diogelwch yn cael eu cynnal bob mis i drafod digwyddiadau andwyol a Digwyddiadau Andwyol Difrifol.

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 – Y gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y lefelau staffio ar y ddwy ward i'w gweld yn briodol ar gyfer anghenion pob un o'r wardiau. Roedd cymysgedd priodol o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd ar bob un o'r wardiau trwy gydol pob sifft. Cadarnhaol oedd nodi bod nyrsys dan hyfforddiant yn ymgymryd â lleoliadau ar y ddwy ward.

Dywedwyd wrthym fod Ward Gwern wedi profi lefel uchel o salwch staff ac absenoldebau am resymau eraill yn ystod mis Rhagfyr 2016 i fis Ionawr 2017. Roedd cymysgedd o nyrsys cofrestredig a gweithiwr cymorth gofal iechyd ymhlith y nifer hon. Dywedwyd wrthym hefyd fod salwch ac absenoldeb y gwasanaeth iechyd meddwl oedolion ar y cyfan wedi lleihau o 40% yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd trefniadau staffio digonol ar gyfer salwch ac absenoldeb staff trwy drefniadau staff banc sefydledig y bwrdd iechyd; anaml y byddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Mewn achosion lle'r oedd anghenion/ymddygiad claf wedi gwaethygu, roedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gallu caffael staff ychwanegol o wardiau cyfagos. Gwelsom achlysur pan oedd angen gwneud hyn yn ystod ein harolygiad, ac roedd hi'n amlwg bod y broses gefnogi'n effeithiol.

Mae anghenion hyfforddi'r staff yn cael eu nodi trwy arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu unigol. Roedd pwyslais ar hyfforddiant gorfodol y mae rheolwyr wardiau yn ei fonitro, ac roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cael ei gwblhau trwy e-ddysgu. Mae staff sy'n ymgymryd â graddau ôl-raddedig yn gallu gwneud cais ar gyfer hyd at 50% o'r cyllid gan y bwrdd iechyd.

5. Y Camau nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Hafan y Coed yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Lle bo'n briodol, mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015

Ffigur 1



Mae arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweiliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau penodol sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Hafan y Coed, Ward Gwern a Ward Cedrwydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror – 2 Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y nam ar gawod <i>en suite</i> y claf yn cael ei gywiro.	4.1	Gwnaethpwyd cais i'r adran cynnal a chadw ac atgyweiriwyd y nam ar unwaith.	Prif Nyrs â gofal y ward	Cwblhawyd
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y byrddau cipolwg ar statws cleifion ar bob ward ond yn weladwy i staff yn y swyddfa nyrsio, a'u bod yn cael eu cadw o'r golwg pan na fyddant yn cael eu defnyddio.	4.1	Bydd yr holl staff yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chyfrinachedd cleifion a'r angen i sicrhau bod "byrddau cipolwg" yn cael eu cadw o'r golwg pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Disgwylir bellach y bydd cyfres o fyrfoddau/symbolau yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau y trosglwyddir y risgiau i'r staff sy'n gofalu am y	Nyrs Arwain Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio /	Diwedd Mai 2017 Diwedd Mai 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			cleifion, ond mewn modd sy'n amddiffyn urddas a chyfrinachedd. Bydd yr holl staff ar draws y bwrdd iechyd prifysgol yn cael eu hatgoffa o'r gofyniad hwn.	Cyfarwyddwy r Nyrsio'r Bwrdd Iechyd	
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gwybodaeth ar sgriniau cyfrifiaduron ar bob ward yn weladwy o'r tu allan i'r swyddfa nyrsio.	4.1	Cynghorwyd y staff nyrsio ar bob ward yn Hafan y Coed i ongli llenni delltrog fel nad yw'r sgriniau'n weladwy mwyach trwy'r ffenestri. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymweliadau arsylwi ar ofal mewnol, a bydd yn cael ei archwilio'n fewnol fel rhan o arolygiadau rheolaidd y gweithle ar draws y bwrdd iechyd prifysgol.	Nyrs Arwain Safonau Proffesiynol ar gyfer Uwch-nyrsys	Cwblhawyd Dechrau ym Mai 2017
7	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffôn talu ar Ward Gwern yn cael ei atgyweirio.	3.2	Mae'r ffôn talu wedi cael ei atgyweirio a bellach mae'n gweithio.	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflawni gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i sicrhau bod gan gleifion Gynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)	Mae hyfforddiant wrthi'n cael ei raeadru gan nyrsys datblygu arferion a phrif nyrsys y wardiau.	Nyrs Datblygu Arferion	Ar waith – adolygiad Medi 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		2010	<p>Bydd rhaglen archwilio cydymffurfiaeth reolaidd gyda rhan 2 y Mesur yn cael ei chyflwyno, ac adroddir i'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn rheolaidd.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn fel rhan o adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Galluedd.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio – Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl</p> <p>Prif Swyddog Gweithredu</p>	<p>Erbyn diwedd Mehefin 2017</p> <p>Adolygu cydymffurfiaeth â Rhan 2 y Mesur – Medi 2017</p>
11	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw cleifion yn gallu cael mynediad at ffitiadau golau.	2.1	<p>Mae'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wrthi'n archwilio opsiynau i gynnal goleuadau digonol wrth rwystro mynediad at wrthrychau miniog.</p> <p>Bydd y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl yn parhau i gynnal asesiadau risg o gleifion a'u goruchwylio'n gyfatebol.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol Iechyd</p>	<p>Ar waith – adolygiad diwedd Mehefin 2017</p> <p>Wedi'i gwblhau a'i ymgorffori'n ymarferol.</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				Meddwl	
11	Rhaid i'r bwrdd iechyd leihau'r perygl o eitemau cyfyngedig yn cael eu trosglwyddo i'r wardiau trwy'r gerddi.	2.1	<p>Mae arwyddion wrthi'n cael eu codi y tu allan i'r wardiau a fydd yn dangos yn glir eitemau cyfyngedig a gwaharddedig.</p> <p>Gofynnwyd i'r holl staff fod yn wylidwrus wrth oruchwylio cleifion yn y gerddi.</p> <p>Bydd y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl yn ystyried a ddylai estyn archwiliadau canfod metel ar draws pob ward cleifion mewnol yn unol ag arfer cyfredol yn y wardiau diogelwch isel.</p>	<p>Nyrs Arwain</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio</p>	<p>Ar waith – adolygiad diwedd Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2017</p>
11	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn dogfennu gwiriadau o'r cyfarpar brys, yn ôl y gofyn.	2.1	<p>Mae systemau ar waith i gofnodi gwiriadau rheolaidd o gyfarpar brys. Atgoffwyd y staff bod angen cynnal gwiriadau dyddiol.</p> <p>Bydd archwiliadau o gofnodion gwirio cyfarpar yn parhau i gael eu cynnal, a rhennir y canlyniadau â phrif nyrsys y wardiau ac fe'u dosberthir ymhlith eu timau.</p>	<p>Nyrs Arwain</p> <p>Uwch-ymarferydd Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Adolygiad diwedd Mehefin 2017 i sicrhau bod</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
					cydymffurfia eth lwyr.
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn dilyn polisi rheoli heintiau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â llenni tafladwy.	2.4	Mae'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi sicrhau bod y trefniadau rheoli heintiau ar gyfer llenni mewn lleoliad Iechyd Meddwl Oedolion wedi cael eu hegluro a'u rhannu â phrif nyrsys y wardiau.	Nyrs Arwain	Cwblhawyd
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau glanhau dwylo priodol wrth fynedfa ac allanfa'r wardiau yn Hafan y Coed.	2.4	Mae'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi ystyried yr argymhelliad hwn ac oherwydd y perygl o lyncu, bydd y gwasanaeth yn profi dosbarthwyr gel alcohol personol ac yn gwerthuso eu defnydd yn y lleoliad penodol hwn.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Ar waith – adolygiad diwedd Medi 2017
13	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y	2.6	Bydd yr holl Fyrddau Clinigol ar	Cyfarwyddwr	Diwedd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd oergell y clinig i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cadw ar y tymheredd gofynnol.</p>		<p>draws y bwrdd iechyd prifysgol yn derbyn nodyn atgoffa mewn perthynas â storio meddyginiaethau'n ddiogel mewn oergelloedd a chynnal y 'gadwyn oer'.</p> <p>Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys mewn briff diogelwch meddyginiaeth gweithredol sydd ar ddod.</p> <p>Mae'r Uwch-ymarferydd Nyrsio yn archwilio cydymffurfiaeth yn rheolaidd.</p> <p>Rhennir canlyniadau'r archwiliadau â phrif nyrsys y wardiau ac fe'u dosberthir ymhlith eu timau.</p>	<p>Meddygol</p> <p>Cyfarwyddwr y Fferyllfa a Rheoli Meddyginiaeth</p> <p>Nyrs Arwain</p>	<p>Mehefin 2017</p> <p>Adolygiad diwedd Mehefin 2017</p> <p>Wedi'i gwblhau a'i ymgorffori</p>
13	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiad yr agorwyd pob meddyginiaeth hylifol.</p>	2.6	<p>Bydd yr holl staff yn Hafan y Coed yn cael eu hatgoffa o'r angen i gofnodi'r dyddiad yr agorwyd</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio – Bwrdd</p>	<p>Mehefin 2017</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>meddyginiaeth hylifol.</p> <p>Bydd nodyn atgoffa yn cael ei gynnwys mewn briff diogelwch meddyginiaeth gweithredol sy'n cael ei drefnu.</p> <p>Rhennir canlyniadau'r archwiliadau â phrif nyrsys y wardiau ac fe'u dosberthir ymhlith eu timau.</p> <p>Mae'r Uwch-ymarferydd Nyrsio yn archwilio cydymffurfiaeth yn rheolaidd.</p> <p>Bydd y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer meddyginiaethau y mae'n rhaid cofnodi'r 'dyddiad agor' arnynt yn cael ei hadolygu.</p>	<p>Clinigol Iechyd Meddwl</p> <p>Cyfarwyddwr y Fferyllfa a Rheoli Meddyginiaeth</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaeth</p>	<p>Adolygiad Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Diwedd Mehefin 2017</p>
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod	2.6	Bydd yr holl ragnodwyr yn cael eu	Cyfarwyddwr	Mehefin

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth yn cynnwys llofnod y rhagnodwr.		<p>hatgoffa o'r angen i gynnwys eu llofnod yn yr adran briodol yn y Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth.</p> <p>Mae Nyrsys Datblygu Arferion bellach wedi dechrau archwiliadau rheolaidd (pythefnosol) o gydymffurfiaeth â'r trefniadau gweinyddu meddyginiaeth.</p>	<p>Clinigol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>2017</p> <p>Wedi'i gwblhau a'i ymgorffori fel rhan o arfer rheolaidd</p>
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi pan weinyddir meddyginiaeth neu'r rhesymau pam na weinyddwyd meddyginiaeth.	2.6	<p>Bydd pob aelod o staff yn Hafan y Coed sy'n gweinyddu meddyginiaeth yn cael ei atgoffa o'r gofyniad i gofnodi pan wnaethant weinyddu meddyginiaeth neu'r rheswm pam na chafodd ei gweinyddu.</p> <p>Bydd nodyn atgoffa yn cael ei gynnwys mewn briff diogelwch meddyginiaeth gweithredol sy'n cael ei drefnu.</p> <p>Mae Nyrsys Datblygu Arferion</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl</p> <p>Grŵp Gweithredol Diogelwch Meddyginiaeth</p>	<p>Diwedd Mehefin 2017</p> <p>Adolygiad Mehefin 2017</p> <p>Wedi'i gwblhau a'i</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>bellach wedi dechrau archwiliadau rheolaidd (pythefnosol) o gydymffurfiaeth â'r trefniadau gweinyddu meddyginiaeth.</p> <p>Mae Diwrnod Rheoli Meddyginiaeth penodol i'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2017. Mae'r Ymgynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaeth yn rhedeg hyn ynghyd â Nyrs Datblygu Arferion Iechyd Meddwl. Ymdrinnir yn benodol â chanllawiau meddyginiaeth hepgoredig yn ystod y sesiynau hyn.</p> <p>Mae dosiau hepgoredig yn ddangosydd perfformiad allweddol sydd wedi'i gynnwys yn y dangosfwrdd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Cesglir y data hwn yn fisol ym mhob Bwrdd Clinigol, a chaiff ei fonitro ac adroddir yn ei gylch yn ystod Adolygiadau Perfformiad</p>	<p>Nyrs Arwain</p> <p>Ymgynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio</p>	<p>ymgorffori</p> <p>Wedi'i gwblhau a'i ymgorffori fel rhan o arfer rheolaidd</p> <p>Wedi'i ymgorffori fel rhan o arfer rheolaidd</p> <p>Diwedd Mehefin 2017</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Gweithredol misol.</p> <p>Mae angen ymgymryd â threfniadau i addysgu staff mewn perthynas â chofnodi cyffuriau a weinyddir i gleifion nad ydynt yn dychwelyd ar ôl seibiant (mewn mannau adsefydlu).</p>	<p>Addysgwyr Arferion Nyrsio / Ymgynghoryd d Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaet hau</p>	

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: